Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYD-BWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd ar: 17 Tachwedd 2017**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Gareth O Williams**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon / Huw Rees**

**Teitl: Cyllideb ac Alldro'r Cyd-bwyllgor 2017/18**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa alldro cyllideb refeniw yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2017/18.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2017/18.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofyn i'r aelodau nodi'r rhagolwg diweddaraf o'r alldro ariannol ar gyfer 2017/18 (Atodiad 1) a chynnydd o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2017/18 fel y manylir yn Atodiad 1. Cyllideb gwariant gros yr AHNE yw £458,600. Mae'r rhagolwg alldro ar hyn o bryd yn dangos gorwariant net o £3,218, yn bennaf ar gostau cyflogau o ganlyniad i daliadau Gŵyl y Banc a oedd heb eu talu.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi copi o Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i lofnodi ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 (Atodiad 2).

5. **Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

   Bydd rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw yr AHNE yn helpu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, yn arbennig ein perthynas gyda phartneriaid cyllido a'n blaenoriaethau ar y cyd.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

   Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

   *Amh.*

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

   Cyflwynwyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin ac fe'i cymeradwywyd.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

   Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol ddiweddaraf yr AHNE ar gyfer 2017/18. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gorwariant bychan ond mae lle o fewn y gyllideb i'w adfer cyn diwedd y flwyddyn. Os oes gorwariant yn dal i fod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd hwn yn cael ei ariannu o gronfa refeniw wrth gefn yr AHNE (balans agoriadol ar 1 Ebrill 2017 oedd £37,690).

   O ran blwyddyn ariannol 2018/19, yr arwyddion cynnar yw nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gostwng y lefelau cyllid cyfredol ar gyfer yr AHNE. Fodd bynnag, ni fydd hyn wedi'i gadarnhau tan 30 Ionawr 2018 pan fydd gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn ffurfiol.

   Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn aros am gadarnhad gan Sir y Fflint a Wrecsam o ran eu bwriad nhw ar gyfer 2018/19. Rydym hefyd yn disgwyl cadarnhad gan CNC ar y grant ganddyn nhw ar gyfer 2018/19. Er hynny, mae'r cyfnod o gynni yn y sector cyhoeddus yn debygol o barhau ac mae'n rhaid dal i gydnabod y bydd cyllidebau'r holl gyrff cyhoeddus yn parhau i fod dan bwysau cynyddol dros y blynyddoedd nesaf.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

    Mae'r gyllideb bresennol yn ddibynnol ar incwm gan CNC a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.